Building Control Guidance Note

Street Naming and Numbering

Flintshire County Council has a duty to ensure that new streets are named and numbered. This leaflet provides guidance for the selection of names for streets within new developments.

The Council's policy is

"To strengthen the Welsh language identity of this border region of Wales". We aim to increase the visibility of the Welsh language in Flintshire's communities by working closely with our communities and developers to produce suitable Welsh or bilingual street names that wherever possible, are derived from historical, geographical or local connections in the area.

Responsibility of the Council

- To carry out consultations with Local Members, Town/Community Councils, Address Management Service and the Council's Welsh Translation Service and reply to you within 28 days.
- To ensure bilingual names are provided on developments where English only names have been suggested.
- To ensure Welsh only names are provided on developments where Welsh names have been suggested or the Authority has been asked to name the development.

Responsibility of the Developer

- To provide suggested street names prior to Commencement of work on site. Please provide a choice in your order of preference. Or,
- To delegate responsibility to the County Council, local Community Council/County Councillor.
- To provide a block plan clearly indicating the layout and location of the proposed new street.

Guidelines for Selecting Street names

The proposed street name should preferably :

- Be a Welsh name that is, wherever possible, consistent with the geography, heritage and history of the area.
- Avoid the use of peoples names.
- Avoid causing any offence.

Conclusion

With your help and support, we will be able to ensure that all new streets are appropriately named and numbered in accordance with our Welsh Language Scheme, thus helping to support and safeguard the Welsh language for the benefit of present and future generations.

Nodyn Canllawiau Rheoli Adeiladu

Enwau a Rhifau Strydoedd

Mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd i ofalu bod strydoedd newydd yn cael enw a rhif. Mae'r daflen hon yn cynnig canllawiau ar ddewis enwau strydoedd mewn datblygiadau newydd.

Dyma bolisi'r Cyngor

"Cryfhau hunaniaeth Gymraeg yr ardal hon sy'n ffinio â Lloegr". Ein nod yw sicrhau bod y Gymraeg yn fwy gweladwy yng nghymunedau Sir y Fflint drwy gydweithio'n agos â'n cymunedau a'n datblygwyr i roi enw Cymraeg addas ar bob stryd; enw sydd, pan fo modd, yn gysylltiedig â nodweddion lleol, hanesyddol neu ddaearyddol yr ardal.

Cyfrifoldeb y Cyngor

» Ymgynghori ag Aelodau Lleol, Cynghorau Tref/Cymuned, Gwasanaeth Rheoli Cyfeiriadau a Gwasanaeth Cyfieithu'r Cyngor ac anfon ateb atoch cyn pen 28 diwrnod.

» Sicrhau bod enwau dwyieithog yn cael eu rhoi ar ddatblygiadau os awgrymwyd enw Saesneg.

» Sicrhau mai dim ond enwau Cymraeg sy'n cael eu rhoi ar ddatblygiadau os awgrymwyd enw Cymraeg yn unig neu os gofynnwyd i'r Awdurdod enw'r datblygiad.

Cyfrifoldeb y Datblygwr

» Cynnig enwau stryd posibl cyn dechrau gweithio ar y safle. Rhestrwch nhw gan nodi'r enw sydd orau gennych gyntaf.

» Neu, dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Cyngor Sir, Cynghorydd Cymuned/Sir lleol.

» Cyflwyno cynllun bloc sy'n dangos lleoliad y stryd newydd arfaethedig yn glir.

Canllawiau ar gyfer dewis enwau stryd

Dylai'r enw arfaethedig

» Fod yn enw Cymraeg sydd, pan fo modd, yn cyd-fynd â daearyddiaeth, treftadaeth a hanes yr ardal.

» Osgoi defnyddio enwau pobl

» Osgoi tramgwyddo yn erbyn neb

Casgliad

Gyda'ch cymorth chi, gallwn wneud yn siŵr bod pob stryd newydd yn cael enw a rhif addas sy'n cadw at ein Cynllun Iaith Gymraeg, gan helpu i hybu a diogelu'r iaith Gymraeg er lles y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.